BCW/2022/ 3ydd Cyfarfod

**Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16.30pm ddydd Mercher 27 Gorffennaf 2022 trwy Microsoft Teams.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mrs Ustus Jefford | Dirprwy Gadeirydd |
| Pam Whitman | Aseswr (yr Arolwg Ordnans) |
| Huw Vaughan Thomas | Comisiynydd |
| Sam Hartley | Comisiynydd |
| Shereen Williams | Ysgrifennydd y Comisiwn |
| Tom Jenkins | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Huw Blacker | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |
| Carys Vaughan | Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn |

**Amser Dechrau: 16:31**

**Amser Gorffen: 17:31**

## 1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU BUDDIANNAU

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Neil Park, Aseswr (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mercher 15 a dydd Iau 16 Mehefin 2022.

## 4. MATERION YN CODI

4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar faterion a gododd o gyfarfodydd y Comisiwn ar ddydd Mercher 15 a dydd Iau 16 Mehefin 2022.

**Mater 1 – Cyhoeddi Cynrychiolaethau**

4.2. Mae'r holl gynrychiolaethau a thrawsgrifiadau gwrandawiadau cyhoeddus o'r ail gyfnod ymgynghori wedi cael eu cyhoeddi bellach ar wefan y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

## 5. COFRESTR RISG

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Gorffennaf 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** y Gofrestr Risg.

5.2. **Nodwyd** bod risg newydd, sef BCW19, wedi cael ei hychwanegu at y Gofrestr Risg i adlewyrchu'r problemau amseru posibl y byddai'r Comisiwn yn eu hwynebu pe byddai etholiad cyffredinol dirybudd.

## 6. ADRODDIAD CYNIGION DIWYGIEDIG DRAFFT

6.1. Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad dyddiedig mis Gorffennaf 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

6.2. Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn anfon mân ddiwygiadau i'r adroddiad drafft at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

6.3. Trafododd y Comisiwn nifer o ddiwygiadau a **chytunodd** arnynt. Pan fydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni wedi gwneud y diwygiadau, bydd yr adroddiad yn cael ei brawf-ddarllen a'i anfon i'w gyfieithu. **Nodwyd** y bydd y Comisiynwyr yn gallu gwneud diwygiadau ychwanegol i'r adroddiad tra bydd gyda'r cyfieithydd.

6.4. Trafodwyd yr amserlen ar gyfer yr arolwg. **Cytunwyd** y bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn gofyn i'r cyfieithydd am ddyddiad dychwelyd amcangyfrifedig ar gyfer yr adroddiad ac yn rhoi gwybod i'r Comisiynwyr.

6.5. Mae'r Ysgrifennydd wedi cysylltu â'r Comisiwn Ffiniau i Loegr, y Comisiwn Ffiniau i'r Alban a'r Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon i ganfod pryd byddant yn cyhoeddi eu Hadroddiad Cynigion Diwygiedig, a bydd yn rhoi gwybod i'r Comisiynwyr pan fydd y dyddiadau wedi'u cadarnhau.

6.6. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn penderfynu ar ddyddiad cyhoeddi pan fydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni wedi cael dyddiad dychwelyd amcangyfrifedig gan y cyfieithydd, ac wedi cael diweddariad gan yr Ysgrifenyddion eraill.

6.7. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth am eu gwaith ar yr adroddiad. **Cytunwyd** bod yr adroddiad drafft yn adlewyrchu popeth a drafodwyd yn y cyfarfodydd ar 15 ac 16 Mehefin 2022.

6.8. **Cam gweithredu:** Y Dirprwy Gadeirydd i anfon mân ddiwygiadau i'r adroddiad drafft at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

6.9. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i ofyn i'r cyfieithydd am ddyddiad dychwelyd amcangyfrifedig ar gyfer yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Comisiynwyr.

6.10. **Cam gweithredu:** Yr Ysgrifennydd i roi gwybod i'r Comisiynwyr ba bryd mae'r Comisiynau eraill yn bwriadu cyhoeddi eu Hadroddiad Cynigion Diwygiedig.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 21/22

7.1. Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad dyddiedig 19 Gorffennaf 2022 gan yr Ysgrifennydd.

7.2. **Cymeradwyodd** y Comisiwn y templed ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2021/22. Bydd yr adroddiad yn cael ei fformatio, ei gyfieithu a'i gyhoeddi, a rhoddir cyhoeddusrwydd iddo ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at y Tîm Noddi yn yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

## 8. UNRHYW FATER ARALL

8.1. **Cytunwyd** y byddai'r cyfarfod â'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael ei gynnal am 1pm ar 13 Medi 2022.

8.2. **Cytunwyd** y byddai dyddiad y cyfarfod ym mis Tachwedd yn cael ei benderfynu pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar ddyddiad cyhoeddi ar gyfer yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig.

8.3. **Cam gweithredu:** Y Swyddog Arolygon i anfon gwahoddiad i'r cyfarfod gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol ym mis Medi.